# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mai 1999 i'w hatebar 8 Mehefin 1999**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

I ofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad:

**C1 Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut mae'n bwriadu hyrwyddo ymhellach bartneriaeth effeithiol i sicrhau cyfundrefn gynhwysfawr o addysg cyn-ysgol. (OAQ89VB)

**C2 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Fiomas ar gyfer Cymru a fyddai'n darparu gorsafoedd lleol i gynhyrchu gwres a phwer. [R] (OAQ73VB)

**C3 Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynnydd a wnaed o ran denu swyddi newydd i Ystradgynlais a Rhan Uchaf Cwm Tawe. (OAQ65JS)

**C4 David Davies (Mynwy);** Sut fyddai'n gwella ymgyrchoedd ar y cyfryngau yn y dyfodol mewn perthynas ag etholiadau ac a fyddai'n gwneud datganiad. (OAQ69JS)

**C5 Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drefniadau sy'n bodoli i sicrhau bod cyfran helaeth o arian cronfa strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei wario ar addysg a hyfforddiant a pha beirianweithiau y mae'n bwriadu eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod grwpiau cymunedol bach yn gallu defnyddio arian yr Undeb Ewropeaidd, yn arbennig arian amcan un. (OAQ78VB)

**C6 Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pryd fydd y cabinet yn gorffen trafod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer y flwyddyn nesaf fel y bydd y penderfyniad ar Arian Ewropeaidd Cyfatebol yn wybyddus. (OAQ74VB)

**C7 Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pryd mae'n bwriadu ymweld â'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. (OAQ77VB)

**C8 Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa fesurau mae'n bwriadu eu cyflwyno i ddelio â'r anghydraddoldeb o ran dyrannu cyfleusterau iechyd meddwl ledled Cymru, gan gyfeirio'n arbennig at y ffaith mai statws iechyd meddwl trigolion Cwm Cynon, ynghyd â Merthyr, yw'r isaf yng Nghymru. (OAQ80VB)

**C9 Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Tra'n cymeradwyo penderfyniad Cyngor Abertawe i wrthod caniatâd am waith glo brig fel dull o ddatrys problem tomen Bryn-lliw yn Abertawe, a allai'r Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ynghylch ai'r Cynulliad, yn hytrach na Chyngor Abertawe, fydd yn ariannu'r gwaith peirianyddol angenrheidiol. (OAQ82JS)

**C10 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Amlinellu, o safbwynt cyffredinol a strategol, swyddogaeth y Cynulliad o ran datblygu system drafnidiaeth integredig yng Nghymru. (OAQ86VB)

**C11 Dafydd Wigley (Caernarfon);** Ar gyfartaledd beth yw lefel ddiweddaraf incwm fferm (net) yng Nghymru. Sut mae hyn yn cymharu â'r ffigur ar gyfer y llynedd a'r flwyddyn gynt. (OAQ83VB)

**C12 Michael German (Dwyrain De Cymru);** Beth yw cyfanswm yr arian cyhoeddus a ddefnyddiwyd i ddenu ffatri Lled-ddargludyddion LG i Gasnewydd. (OAQ76JS)

**C13 Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o arian fydd wedi ei glustnodi o fewn cyllideb y Cynulliad yn y flwyddyn gyfredol fel arian cyfatebol o dan Cronfeydd Strwythurol Ewrop, gan gynnwys rhai Amcan 1. (OAQ85VB)

**C14 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa astudiaethau a wnaed ganddo i ddarpariaeth gofal yn y gymuned a gofal seibiant yn ardal Rhydaman. (OAQ84VB)

**C15 Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I amlinellu cynigion ar gyfer proses apeliadau cynllunio newydd ar ôl i bwerau'r Swyddfa Gymreig gael eu trosglwyddo ym mis Gorffennaf. (OAQ67JS)

**C 16 Elin Jones (Ceredigion);** Pa gynlluniau sydd ganddo, yn sgil cyfres o streiciau gan yr AUT dros yr haf, i sicrhau bod cyflogau ac amodau gwaith staff ein prifysgolion yn caniatáu datblygiad proffesiynol teilwng (OAQ90JS)

**C17 Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth fydd yn cael ei wneud i ddiogelu ffatrïoedd prosesu cig bychan. (OAQ66JS)

**C18 Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** I wneud datganiad ynghylch rhestrau aros diweddar yr NHS sy’n datgelu bod y nifer sydd wedi aros dros 6 mis am driniaeth yn Awdurdod Iechyd Bro Taf wedi parhau i godi. (OAQ79VB)

**C 19 Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A fydd yn hysbysu’r Cynulliad o’rpwerau sydd ganddo i ddylanwadu ar Cardiff Railways, a osodwyd yn ddiweddar yn y categoriisaf o ran prydlondeb a dibynadwyedd, i wella ei ddibynadwyedd? (OAQ81JS)

**C20 Geraint Davies (Rhondda);** Beth yw’r gost dybiedig ar hyn o bryd ar gyferYsbyty Brenhinol Morgannwg a fydd yn ôl a ddeallaf yn cael ei gwblhau yn ddiweddaracheleni; a faint fydd cost dybiedig ailosod y teils to diffygiol, ynghyd â chost dybiedigatgyweirio diffygion eraill o fewn yr ysbyty (OAQ88JS)

**C21 Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Beth mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddynddiwethaf i berswadio LG a Hyundai i fynd ymlaen â’r ffatri microsglodion yngNghasnewydd. (OAQ87JS)

**C22 Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Yn wyneb cau Ffatri F.I.I. Group Footwear ymMhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar a cholli dros 1100 o swyddi yn y diwydiantgweithgynhyrchu dillad yng Nghymru ers mis Medi 1998, a wnaiff ddatgan yr hyn y mae’nbwriadu ei wneud i gefnogi gweithgynhyrchu dillad yng Nghymru er mwyn sicrhau na fyddrhagor o swyddi yn cael eu colli ac a fydd yn gwneud datganiad. (OAQ70S)

**C23 Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth sy’n cael ei wneud i gyflawnitargedau’r Llywodraeth i ailgylchu 25 y cant o wastraff cartrefi yng Nghymru erbyn yflwyddyn 2000. [R] (OAQ71VB)

**C24 Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I roi adroddiad ar y cynnydd a wnaed o rangweithredu Cytundebau Cartref Ysgol. (OAQ68JS)

**C25 Nick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sefydlu‘Grwp Strategaeth Fforestydd Cymru’ er mwyn arwain a datblygu un o’nhadnoddau mwyaf gwerthfawr. [R] (OAQ72VB)